PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

Profiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2010

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… mwy na thebyg y lle gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

**RHIFYN 2 - 2010**
**Hydref/Tachwedd**

2 Gwydr lliw canoloesol yn ysbrydoli gwyddonwyr y gofod



4 Gwyddonwyr yn croesawu rhwydwaith uwch-gyfrifiadureg



6 Rhagoriaeth Dysgu yn Aberystwyth - Stori heb ei Hadrodd



8 Pobl Aber



**NEWYDDION PRIFYSGOL**

# Hyrwyddo cymuned decach i bawb

Gyda mwy na 8,500 o fyfyrwyr a 2,000 o staff o dros 100 o wledydd ar draws y byd, ddylai hi ddim bod yn syndod fod Prifysgol Aberystwyth yn gartref i gymuned gyfoethog ac amrywiol.



*Ffilimio'r fideo Cydraddoldeb ac Amrywioldeb*

Yn 2009 lansiodd y Brifysgol ei Chynllun Cydraddoldeb ac Amrywioldeb er mwyn dangos ei hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a chefnogi Deddf Cydraddoldeb 2010 sydd â'r nod o hyrwyddo cymuned deg, gyfartal ac amrywiol.

Nawr mae'r Brifysgol yn lansio fideo dwyieithog newydd sydd yn cynnwys aelodau staff a myfyrwyr er mwyn hyrwyddo'r Cynllun a phwysleisio'r gwerth y mae'r Brifysgol yn ei osod ar amrywioldeb ymysg staff a myfyrwyr.

Mae'r fideo 2½ munud sydd ar y we yn adlewyrchu'r rhesymau paham bod Prifysgol Aberystwyth yn le gwych i astudio, gweithio ac ymweld ag ef, ac yn un o'r prifysgolion gorau yn y Deyrnas Gyfunol am fodlonrwydd myfyrwyr yn ôl Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2010.

The Queen's Anniversary Prizes 2009

Dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Sue Chambers, "Mae'r fideo hwn wedi derbyn cefnogaeth ar y lefel uchaf, gan Gyngor y Brifysgol. Ein nod yw creu a hyrwyddo diwylliant lle mae parch a dealltwriaeth yn cael eu meithrin, a bod gwerth amrywioldeb ein cymuned yn cael ei ddathlu."

Mae'r fideo ar gael ar y wefan www.aber.ac.uk/cydraddoldeb mewn amryw o ffurfiau hawdd i'w defnyddio. Mae'r Brifysgol yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych am y fideo.

## Sylw cadarnhaol Stonewall



Aberystwyth yw un o'r Prifysgolion mwyaf cyfeillgar tuag at fyfyrwyr hoyw yn y Deyrnas Gyfunol yn ôl *Gay by Degree*, y canllaw Prifysgol cyntaf i'w gyhoeddi gan Stonewall, yr elusen i lesbiaid, hoywon a'r deurywiol (LHD).

Mae'r canllaw yn mesur cyfeillgarwch tuag at hoywon ar sail nifer o ffactorau. Mae gan Aberystwyth bolisi sydd yn amddiffyn myfyrwyr LHD rhag cael eu bwlio, hyfforddiant gorfodol i staff ar faterion LHD, cymdeithas fyfyrwyr LHD, digwyddiadau i fyfyrwyr LHD, ac yn ymgynghori â myfyrwyr LHD.

I gael gweld mwy ewch i www.gaybydegree.org.uk.

CYFRIFIADUREG

# Gwydr lliw canoloesol yn ysbrydoli gwyddonwyr y gofod

**Mae'r gwydr lliw godidog sy'n addurno eglwysi cadeiriol canoloesol wedi ysbrydoli tîm o wyddonwyr y gofod sy'n ceisio darlunio lliwiau gwirioneddol y blaned Mawrth.**

Mae tîm roboteg y gofod o'r Adran Gyfrifiadureg yn arwain y gwaith o ddatblygu'r targed calibro camerâu ar gyfer taith 2018 ESA ExoMars.

Elfen annatod o'r targed calibro camerâu yw'r sglodion bach o wydr lliw, a gynhyrchir trwy ddefnyddio prosesau tebyg iawn i rai a ddefnyddid yn y canol oesoedd.



Yr Athro Dave Barnes (chwith) a Dr Stephen Pugh yn ystod treialon maes ar draeth Clarach.

"Ychydig iawn neu ddim o gwbl o osôn sydd yn atmosffer y blaned Mawrth, ac oherwydd hyn mae'r lefelau uchel o ymbelydredd uwch-fioled yn gallu peri i liwiau bylu yng ngolau'r haul," esbonia'r Athro Dave Barnes, arweinydd y gwaith ar y Crwydrwr ExoMars yn Aberystwyth.

"Cafwyd y syniad o ddefnyddio gwydr lliw ar ôl sylwi ar y ffenestri lliw a geir mewn eglwysi. Er bod golau'r haul wedi eu taro ers canrifoedd, nid yw eu lliwiau'n dirywio rhyw lawer, os o gwbl" meddai.

Bydd un o declynnau Camera Panoramig (PanCam) y crwydrwr ExoMars yn tynnu lluniau o arwynebedd y blaned Mawrth.

Tîm Aberystwyth fydd yn gyfrifol am brosesu'r delweddau hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau delweddu cyfrifiadurol ac algorithmau a ddatblygwyd yn y Brifysgol.

Un broblem yw bod amgylchedd y blaned Mawrth yn creu gwawr ym mhob un o'r delweddau. Achosir hyn gan y mân-ronynnau o lwch sydd yn atmosffer y blaned.

Mae'r gwyddonwyr am gywiro lliwiau'r delweddau (i'w gwneud yn debycach i'r hyn y byddai llygaid dynol yn ei weld), i'w helpu i ganfod targedau gwyddonol posibl ar gyfer ymchwil pellach.

I wneud hyn, rhaid gosod Targed Calibradu Camerâu ar y crwydrwr ExoMars, ac yna bob tro y caiff cyfres o luniau eu tynnu, caiff delweddau o'r Targed Calibradu Camerâu eu tynnu hefyd.

Offeryn monocrom aml-sbectrol yw'r PanCam. Trwy ddefnyddio'r delweddau a dynnir gyda'r ffiltrau sydd ar gael, ynghyd â'r data o ddelweddau'r Targed Calibradu Camerâu, mae'n bosib creu delweddau lliw cywir o arwyneb y blaned Mawrth.

Mae'r tîm roboteg y gofod yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Sefydliad Mathemateg a Gwyddorau Ffisegol (IMAP) sydd â'r arbenigedd angenrheidiol mewn gwydr.

Er bod Targed Calibradu PanCam yn fach iawn – 50 mm × 50 mm, 18 mm o uchder, ac yn pwyso dim mwy na 20 gram – gall ei gyfraniad i'r gwaith o chwilio am fywyd ar y blaned Mawrth fod yn enfawr yn y dyfodol.

Noddir y PanCam a gwaith y Targed Calibradu PanCam gan Asiantaeth y Gofod y Deyrnas Unedig.

## Parcio ar Benglais

Ar y **1af o Hydref** bydd yr ardaloedd parcio Mewnol ac Allanol o amgylch adeiladau academaidd yn cyfuno i un ardal Ganolog. Mae manylion am sut i gael tocyn parcio staff ynghyd â ffioedd parcio 2010/11 ar gael ar-lein www.aber.ac.uk/residential/cy/houseservices/parking.shtml

ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

# CAA yn symud




*Yn y llun (chwith i'r dde) - Llinos Jones, Gweinyddydd Marchnata; Amlyn Ifans, Swyddog Cyllid a Gweinyddol; Lynwen Rees Jones, Cyfarwyddwr; Richard Pritchard, Dylunydd; Delyth Ifan, Golygydd; Fflur Pughe, Swyddog Marchnata/Golygydd.*

Mae'r Ganolfan Astudiaethau Addysg (CAA), un o gyhoeddwyr adnoddau addysgol mwyaf Cymru ac sydd yn rhan o'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi symud i safle newydd ar Gampws Gogerddan.

Ers ei sefydlu 28 mlynedd yn ôl, mae CAA wedi cynhyrchu deunyddiau o ansawdd uchel yn y Gymraeg ac yn Saesneg – yn llyfrau, CDau, CD-ROMau rhyngweithiol, pecynnau aml-gyfrwng a gweithgareddau ar-lein – ac fe gyhoeddwyd oddeutu 2,000 o gyhoeddiadau. Am fwy o wybodaeth am gyhoeddiadau a gwaith CAA, ewch i'r wefan: www.caa.aber.ac.uk.

CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth. Ffôn 01970 621763 E-bost cyfathrebu@aber.ac.uk.

Os ydych am gynnig eitem ar gyfer ei chyhoeddi gallwch wneud hynny ar bapur neu drwy e-bost. Yn anffodus, oherwydd prinder gofod, ni fydd yn bosibl cyhoeddi pob eitem sydd yn dod i law. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Gwener 22ain Hydref 2010**.

# Colofn yr Is-Ganghellor

Mae'n bleser gennyf gael y cyfle hwn i gyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.



Bu'r blynyddoedd diwethaf yn rhai llwyddiannus i Brifysgol Aberystwyth. Rydym yn arbennig o falch ein bod yn dal i lwyddo yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ac asesiadau eraill o foddhad myfyrwyr. Yn y byd sydd ohoni, gyda'i ddisgwyliadau mwyfwy eang, rhaid inni gofio mai addysg a hyfforddiant y myfyrwyr yw un o nodweddion sylfaenol prifysgol.

Rydym hefyd wrth ein bodd yn gweld ein cynnydd yn y tablau a gyhoeddir yn genedlaethol. Er nad ydynt yn ddulliau perffaith o fesur sefydliad, eto mae'n galondid gweld ein bod yn codi yn gyflym ymhob un ohonynt.

Mae ein darpariaeth academaidd gystadleuol - i ddarpar fyfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd - yn un o'r ffactorau a arweiniodd at ein llwyddiant eithriadol wrth ddenu'r niferoedd mwyaf erioed, o ran ceisiadau, ac o ran y nifer o geisiadau a droswyd yn dderbyniadau cadarn, gyda'r canlyniad nad oedd angen i ni ddefnyddio'r sustem glirio. Hoffwn ddiolch i bawb a weithiodd mor galed er mwyn cyflawni hyn.

Mae'r llwyddiannau hyn yn golygu ein bod yn wynebu'r dyfodol o sefyllfa go gadarn. Serch hynny, mae'n debyg y bydd y blynyddoedd nesaf yn hynod o heriol i Addysg Uwch, fel pob maes sy'n dibynnu ar gyllid y llywodraeth.

Rhaid inni ddisgwyl y bydd y grant adnewyddol yn lleihau'n sylweddol yn y pedair blynedd ar ôl yr Adolygiad Gwariant, ac fe gyhoeddir canlyniadau'r adolygiad hwnnw ganol mis Hydref. Bydd hi'n cymryd ychydig o amser wedi hynny inni gael gwybod, yn gyntaf, beth fydd yr effaith ar y cyllid fydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad, ac wedyn sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu ymhlith y penawdau gwariant. Rydym yn disgwyl y bydd argymhellion adroddiad Browne yn cael eu cyhoeddi ychydig cyn yr Adolygiad Gwariant.

Felly mae Addysg Uwch yn cychwyn ar gyfnod o gryn heriau ac ansicrwydd - yn sicr ni fydd y gorffennol yn rhoi canllawiau i'r dyfodol. Yng Nghymru y mae nifer o ddatblygiadau arwyddocaol eraill, ac mae effaith y rheini gyda'i gilydd yn golygu mwy fyth o ansicrwydd. Mae polisi rhanbartholi, y pwyslais cynyddol ar Raddau Sylfaen, y newidiadau i'r mecanwaith ariannu y mae'r Cyngor Cyllido yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd – gan gynnwys y gofyniad bod y rhan fwyaf o'i gyllid adnewyddol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r blaenoriaethau strategol, y pwyslais ar effeithlonrwydd a'r Adolygiad ar Adnoddau'r Rheng Flaen, y cyfyngiadau ar y niferoedd o israddedigion o Brydain a'r UE, a'r Fframwaith Bwrsariaethau Cenedlaethol.

Yn yr amgylchedd hwn, bydd yn rhaid inni wneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn gweithio yn y modd mwyaf effeithlon posib a'n bod yn fwy effeithiol ym mhob agwedd ar ein gwaith. Bydd yn her – ond hefyd yn gyfle inni sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy.

## Penodi Is-Ganghellor

Yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf, cytunodd Cyngor y Brifysgol i gychwyn ar broses benodi Is-Ganghellor newydd, gan sefydlu Pwyllgor Dewis yn unol ag Ordinhad 5 y Brifysgol.

Cylch gwaith y Pwyllgor Dewis yw cyflwyno ei argymhellion i'r Cyngor, a sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol yn fras o agweddau allweddol y broses benodi.

Dyma aelodau'r Pwyllgor Dewis: Syr Emyr Jones Parry, Llywydd y Brifysgol; Mr Richard Morgan, Trysorydd y Brifysgol; Mrs Elizabeth France, Is-Lywydd y Brifysgol; Dr Glyn Rowlands, aelod lleyg o'r Cyngor; Dr John Harries, Dirprwy Is-Ganghellor; yr Athro Len Scott, cynrychiolydd o'r Senedd a'r Athro Nigel Thrift, Is-Ganghellor o Brifysgol Warwick. Cofrestrydd ac Ysgrifennydd y Brifysgol, Dr Catrin Hughes, sy'n gweinyddu ar y Pwyllgor.

Penodwyd Odgers Berndston yn gwmni ymgynghori recriwtio i helpu'r Brifysgol â'r broses benodi.

Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ym mis Hydref 2010, ac fe lunnir rhestr fer ym mis Rhagfyr 2010 ar gyfer y cyfweliadau terfynol. Bwriedir cynnal y cyfweliadau ym mis Ionawr 2011. Bydd y Pwyllgor Dewis wedyn yn gwneud ei argymhelliad i'r Cyngor ynghylch pwy i'w benodi. Bydd yr amserlen hon yn golygu y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu cymryd yr awenau erbyn mis Medi 2011 fan bellaf.

## Bodlonrwydd Myfyrwyr

Unwaith eto mae Aberystwyth ar y blaen o ran bodlonrwydd myfyrwyr. Dyfarnwyd marc o 4.4 (ar raddfa o 1-5 mewn bodlonrwydd myfyrwyr) gan Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr 2010 yn ôl y canlyniadau gafodd eu cyhoeddi ddiwedd Awst. Dyma'r drydedd sgôr uchaf gan brifysgol breswyl gyhoeddus yn y Deyrnas Gyfunol, fymryn y tu ôl i Rydychen a St Andrews.

Yn ôl yr arolwg roedd Aberystwyth yn 5ed o holl brifysgolion y Deyrnas Gyfunol ac ar y brig yng Nghymru am y chweched flwyddyn yn olynol. O'i gymharu â 2009 roedd bodlonrwydd gydag Aberystwyth i fynny 2% i 92%, 10% yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig a Phrydeinig. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Unistats www.unistats.com.

HANES A HANES CYMRU

## Cof a'r Cyfryngau yng Nghymru 1950-2000

Ydych chi'n cofio eistedd o flaen y teledu i wylio Coroni'r Frenhines ym 1953, lluniau erchyll trychineb Aberfan, darllediad arloesol cyntaf S4C, neu'r tensiwn cynyddol wrth i ganlyniadau refferendwm datganoli 1997 gael eu cyhoeddi?


Dr Iwan Morus

Atgofion o'r fath fydd sail 'Cof a'r Cyfryngau yng Nghymru 1950-2000', astudiaeth newydd i ddylanwad teledu ar fywyd teuluol yng Nghymru yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif, "oes y teledu".

O dan arweinyddiaeth Dr Iwan Morus o Adran Hanes a Hanes Cymru, a Dr Jamie Medhurst o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, bydd ymchwilwyr yn recordio cyfweliadau gyda phobl yn Wrecsam, Caernarfon, y Rhondda a Chaerfyrddin am eu hatgofion o wylio digwyddiadau hanesyddol ar y teledu a sut mae'r rhain yn adlewyrchu eu hymdeimladau o berthyn a hunaniaeth.

Drwy weithio gyda Culturenet Cymru bydd y cyfweliadau yn ffurfio archif ddigidol ddwyieithog ar-lein lle bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyfrannu eu hatgofion eu hunain ar ffurf lluniau, sain a fideo.

Mae disgwyl i'r wefan gael ei lansio yng ngwanwyn 2011. Bydd modd cyrraedd at y cynnwys hefyd drwy wefan Casgliad y Werin Cymru www.casgliadywerin.com.

RHEOLAETH A BUSNES

## Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth yng Nghymru

Mae'r Ysgol Rheolaeth a Busnes wedi ymuno â Phrifysgolion Caerdydd a Glyndŵr i greu Canolfan Ragoriaeth i Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth yng Nghymru.

Mae Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru (ARC) yn rhan annatod o raglen Sgiliau Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth gwerth £37m sydd wedi ei gyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a'i reoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nod ARC yw gwella sgiliau Arweinyddiaeth a Rheolaeth yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth i fusnesau am ddulliau, fframweithiau ac arferion sy'n gysylltiedig â datblygu arweinyddion a rheolwyr.

Nid yw ARC yn cynnig hyfforddiant na chyllid ynddo'i hun, ond yn gweithredu fel gwasanaeth cyfeirio a darparu gwybodaeth i fusnesau yng Nghymru. Trwy wefan www.lmw.org.uk, yn ogystal â digwyddiadau rhwydweithio a gynhelir trwy gydol y flwyddyn, mae ARC yn cynnig pob math o wybodaeth ar bwysigrwydd datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth, yn ogystal â chysylltiadau â rhai sy'n darparu hyfforddiant a phosibiliadau am gyllid.

Mae rhan Prifysgol Aberystwyth yn y prosiect yn gysylltiedig â gweithgaredd yng Nghanolbarth Cymru, ac o ganlyniad penodwyd Tom Bates, sydd wedi'i leoli yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, yn Swyddog Datblygu Ymchwil a Rhwydweithio. Gorchwyl Tom yw cynyddu'r galw am y gwasanaeth a chreu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Caiff hyn ei gyflawni trwy gynnig cefnogaeth 'ar lawr gwlad' i fusnesau, sydd ar gael dros y ffôn, ar e-bost neu wyneb yn wyneb i gynorthwyo ag unrhyw gwestiynau a allai fod gan fusnesau am ARC. Bydd Tom hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau rhwydweithio ar draws Cymru yn y blynyddoeddBydd hyn ar y cyd â hybu gwefan ARC:

Gwefan: www.lmw.org.uk
Ebost: lmw@aber.ac.uk Ffonio: 01970 622209

DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR

# Cyfrifiadureg Perfformiad Uchel Cymru


Yr Athro Richard Lucas

Mae gwyddonwyr yma yn Aberystwyth wedi croesawu sefydlu Cyfrifiadureg Perfformiad Uchel Cymru (HPC Cymru), cynllun uchelgeisiol £40m i ddatblygu rhwydwaith uwch-gyfrifiadureg yng Nghymru.

Yr Athro Richard Lucas yw arweinydd Uned Arsylwi'r Ddaear yn Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear y Brifysgol. Mae'r Uned yn defnyddio delweddau a dynnwyd o awyrennau a lloerennau er mwyn deall a mesur sut mae cynefinoedd, gan gynnwys rhai yng Nghymru, yn ymateb i newidiadau sydd yn gysylltiedig â gweithgareddau dynol a digwyddiadau naturiol.

Yn ogystal, mae'r Athro Lucas yn gweithio'n agos gyda chwmni o Aberystwyth, Environment Systems Ltd, sydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorol a gwybodaeth amgylcheddol a daearyddol. Mae'r cwmni yn cyflogi nifer cynyddol o arbenigwyr mewn prosesu, dadansoddiad a dehongliad wedi ei awtomeiddio o ddelweddau a dynnwyd o loerennau ac awyrennau; gan droi'r data yn wybodaeth a chynnig gwell dealltwriaeth o'n hamgylchedd.

"Mae nifer o'r setiau data yn ein hymchwil yn fawr iawn", dywedodd. "Mae'r data o synwyryddion optegol a radar o'r gofod yr ydym yn ei ddefnyddio yn cynnwys gwledydd cyfan (e.e. Awstralia a Chile) ac mae'r gwaith o'i gasglu yn parhau. Mae'r setiau data cyfres amser hyn yn cynnig mewnwelediad unigryw i gyflwr hanesyddol a phresennol tirweddau ac yn ein galluogi i ddeall, adeiladu modelau a rhagweld newidiadau all ddigwydd yn y dyfodol."

"Mae maint a chost prosesu'r data hwn yn enfawr. Bydd HPC yn ein galluogi i ddefnyddio'r data sydd eisoes ar gael a'r hyn sydd newydd ei gasglu ac yn ein gwneud yn fwy hyderus o safbwynt ymwneud â phrosiectau mwy o faint a fydd o fudd i ystod eang o ddefnyddwyr."

"Gyda'r hyn y mae HPC yn ei gynnig mae gennym ni'r gallu i brosesu a dadansoddi'r data yma er mwyn ymateb i faterion sydd yn ymwneud â dylanwad dynol ar dirweddau a'r newidiadau sydd yn gysylltiedig gydag amrywiadau yn yr hinsawdd."

Mae Cyfrifiadureg Perfformiad Uchel Cymru (HPC Cymru) yn brosiect pum mlynedd er mwyn galluogi busnesau a phrifysgolion yng Nghymru sydd yn gwneud ymchwil masnachol i ddefnyddio'r dechnoleg gyfrifiadurol fwyaf blaengar a datblygedig sydd ar gael.

DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU ALUMNI

# Y Gronfa Flynyddol

Julian Smyth, Pennaeth Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yn amlinelli amcanion y Gronfa Flynyddol ar gyfer 2010/11.



*Llynedd cyfranodd y gronfa flynyddol at y gost o ehangu'r ddarpariaeth wifi ar gyfer myfyrwyr.*

Helpu ein myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial yw diben yr addysg a roddir yn Aberystwyth, ac mae blwyddyn gyntaf y Gronfa Flynyddol wedi dangos bod hynny'n parhau ymhell ar ôl graddio. Mae mwy o'n cyn-fyfyrwyr, ein staff, aelodau o'n Cyngor, a chyfeillion eraill wedi cefnogi'r Gronfa Flynyddol yn 2009/10 nag a gefnogodd holl brifysgolion Cymru gyda'i gilydd yn 2008/09. Gyda'i gilydd, rhoddodd bron i 1,500 o gefnogwyr gyfanswm o £250,000, yn rhoddion unigol ac yn addewidion tair-blynedd i gefnogi ein pedwar prif brosiect.

O ganlyniad mae prosiectau'r Gronfa Flynyddol ar gyfer 2009/10 wedi'u hariannu'n llawn ac wedi'u rhoi ar waith. Bydd y myfyrwyr PhD a noddwyd gennym wedi cyrraedd erbyn hyn, mae'r prosiect Technoleg Gwybodaeth bron wedi'i gwblhau, mae Cronfa Caledi'r Myfyrwyr wedi'i gwireddu erbyn hyn, ac fe gafodd y gwelliannau i'r Piazza eu cwblhau dros yr haf.

Mae Cronfa Flynyddol 2010/11 wedi gosod pedwar nod:

- "Meddyg Arian" sef cynghorwr i helpu myfyrwyr i reoli eu trefniadau ariannol yn effeithiol;
- Rhaglen mentora gyrfaol a chyflogaeth gyda chyn-fyfyrwyr, a weinyddir drwy'r Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd;
- Ysgoloriaeth PhD, a ariennir yn llawn am dair blynedd, yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes; a
- Digido casgliad y Brifysgol o ddogfennau fel y byddant ar gael i ysgolheigion ar y rhyngrwyd.

Ym mis Hydref byddwn yn dechrau chwilio am fyfyrwyr i ymuno â'n hymgyrch ffonio, gan gychwyn ar y ffonio ar ddechrau mis Tachwedd. Gosodwyd nod mwy uchelgeisiol byth eleni o £275,000. Os am wybod mwy ewch i www.aber.ac.uk/cy/development/support/annfund .

# Cic Arall i'r Bar

Roedd penwythnos aduniad 'Cic Arall i'r Bar' cyntaf Prifysgol Aberystwyth, 20fed – 22ain Awst, yn llwyddiant mawr, gyda chyn-fyfyrwyr o bob oed yn dod yn ôl i gwrdd â hen gyfeillion a gwneud rhai newydd. Cynhelir Cic Arall i'r Bar 2011 ar y penwythnos 2il – 4ydd Medi 2011, gweler www.aber.ac.uk/cy/development am fwy o fanylion.

# Bysus bach y wlad

Am flwyddyn arall bydd cynllun teithio AHA yn cynnig gostyngiadau ar wasanaethau bysus lleol a chenedlaethol Arriva. Rhaglen o ostyngiadau ar fysus Arriva i fyfyrwyr yw 'Ar-Hyd-Aber', sydd hefyd yn cynnig budd i staff.

O'r 20fed o Fedi bydd deiliaid cerdyn AHA yn cael teithio yn rhad ac am ddim ar holl wasanaethau Arriva o fewn Aberystwyth, gostyngiad o 50% ar deithiau pellach, a theithio yn rhad ac am ddim i ac o Gaerdydd os nad yn teithio yn ystod oriau brig.

Mae hefyd yn cynnig gostyngiad o 1/3 ar wasanaethau trên Lein y Cambrian. Mae hyn oll ar gael i aelodau staff am £40 y flwyddyn. Am fanylion llawn, telerau ac amodau, neu i wneud cais am y cerdyn, galwch yn nerbynfa Undeb y Myfyrwyr.




# Wythnos Menter 2010:

## 15fed – 19eg Tachwedd

Unwaith eto eleni bydd Wythnos Menter yn cael ei chydlynu gan dîm Menter y Gwasanaeth Masnacheiddio a Mentro (CCS) ac yn cynnwys digwyddiadau, gweithgareddau a chystadlaethau er mwyn ennyn diddordeb mewn Mentergarwch ymysg myfyrwyr a staff. I gael y manylion diweddaraf ym Mhrifysgol Aberystwyth ewch i: www.aber.ac.uk/enterpriseweek .

Am fwy o wybodaeth am Gefnogaeth Menter sydd ar gael cysylltwch â Tony Orme ar awo@aber.ac.uk.

ADNODDAU DYNOL | ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

# Rhagoriaeth dysgu


*Graham Lewis a Jo Maddern*

## yn Aberystwyth - stori heb ei hadrodd

**Graham Lewis, Cydlynydd, Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd & Jo Maddern, Cydlynydd Datblygu Dysgu ac Addysgu, Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ystyried dylanwad y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch.**



Un o'r rhesymau pam mae Aberystwyth mor uchel ei bri fel prifysgol yw ansawdd y dysgu. Y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch yw'r prif ysgogiad sy'n gyrru diwylliant sy'n rhoi gwerth mawr ar ansawdd y dysgu. Mae'n rhaglen a gydnabyddir ledled Prydain ac sy'n cael ei rhedeg yn Aberystwyth ers deng mlynedd a mwy: cymhwyster gorfodol i bob aelod newydd o'r staff.

Yn ôl y Dr. Samantha Winters, Darlithydd Biomecaneg mewn Gwyddor Chwaraeon, a fu ar y rhaglen yn ddiweddar, roedd y profiad yn trawsnewid ei hagwedd tuag at ddysgu:

"Mae fy safbwynt o ran dysgu wedi newid yn llwyr ar ôl gwneud y cwrs {TUAAU}, ac fe deimlaf fod y profiad yn rhan bwysig iawn o'm datblygiad, a'r rheswm am hynny yw'r ffordd mae'n cael ei redeg a'r gefnogaeth oedd ar gael. Ces i lawer o fudd ohono, a nawr edrychaf ymlaen at ddatblygu fy nghyswllt â'r rhaglen ymhellach fel mentor".

Mae'r rhaglen yn gwerthfawrogi'r cyfoeth y mae pob unigolyn yn gallu ei gyfrannu tuag at ddysgu ac yn ystod y ddwy neu dair o flynyddoedd y mae'n cymryd i gwblhau'r rhaglen, mae'r staff dysgu yn datblygu eu dull unigryw eu hunain, ac yn ymgymryd â thri phrosiect ymchwil am eu dysgu eu hunain. Mae'r llif cyson hwn o arloesi, gan staff newydd a brwd, yn adfywio'r diwylliant dysgu ym mhob adran. Yr egwyddorion sy'n greiddiol i'r rhaglen yw hybu ymdeimlad ymhlith y myfyrwyr eu bod yn berchen ar eu dysgu eu hunain, cysylltu'r dysgu â'r asesu, a deall bod pob dysgwr yn unigolyn.

Mae'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd yn cydweithredu i redeg y rhaglen hon, ac maen nhw'n cynnal llawer o ddigwyddiadau eraill i gynorthwyo'r gwaith datblygu dysgu rhagorol, gan gynnwys mân-gynhadledd ddwywaith y flwyddyn i rannu dulliau arloesol o ddysgu ar draws yr adrannau.

Mae'n bleser gwirioneddol a braint cael cyswllt unigol â staff academaidd o bob cwr o'r brifysgol a chael siarad am arloesi ac ymarfer dysgu. Erbyn hyn mae athroniaeth dysgu yn cael ei thrafod yr un mor frwd ag ymchwil, ac rwyf yn falch o gael bod yn rhan o Brifysgol sydd mor weithredol o ran dysgu.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyllid i staff i ddatblygu dulliau newydd a chreadigol o ddysgu, ac mae'n cydnabod rhagoriaeth drwy ddyfarnu gwobrwyon blynyddol i staff dysgu a chynorthwywyr dysgu uwchraddedig. Yn 2010,

sefydlwyd Academi Rhagoriaeth Dysgu gan y Brifysgol ac mae croeso i'r staff a gydnabuwyd â gwobr o'r fath fod yn aelod o'r Academi honno.

Mae mwyfwy o staff Aberystwyth wedi cael cydnabyddiaeth Brydeinig a rhyngwladol am ragoriaeth eu dysgu. Yn 2009 cafodd Heike Roms (Theatr, Ffilm a Theledu) a'r Dr. Elena Korosteleva wobrau ar lefel Brydeinig am ddysgu yn eu disgyblaethau nhw, ac yn 2010 enillodd y Dr Judith Broady-Preston (Astudiaethau Gwybodaeth) hithau wobr hefyd.

Serch hynny, mae llawer o'r gwaith da a'r ymroddiad gan y staff dysgu a'r staff cynorthwyol yn mynd yn ei flaen yn ddiffwdan ddigon heb gael sylw o'r tu allan i'r sefydliad.

Mae Aberystwyth wedi ymgorffori technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn llawer agwedd ar ei gwaith dysgu drwy'r cynllun 'Gwella', ac mae llawer o'r gwaith a wneir yn y maes hwn yn cael sylw ar wefan NEXUS: nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/

Yn 2008, enwebwyd y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd am Wobr y Times Higher am ei gwaith arloesol gyda'r modiwl Cynorthwyo Myfyrwyr sydd wedi helpu ystod eang o staff o bob rhan o'r Brifysgol, nad ydynt yn dysgu myfyrwyr, i wella'r ffordd y maent yn helpu myfyrwyr yn ystod eu hamser yn Aberystwyth.

Yn 2009 cynhaliodd y Ganolfan honno, a'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Ysgol Haf i 20 o academyddion o Brifysgol y Brenin Abdul-Aziz yn Sawdi Arabia. Byddant yn rhedeg Ysgolion Haf tebyg yn y dyfodol i bobl sy'n dysgu myfyrwyr mewn Prifysgolion ar draws Ewrop a'r tu hwnt, er mwyn rhannu â nhw'r hyn sy'n gwneud ein dysgu ni mor arbennig. Dywedodd y Dr Al Kenani, cyn-fyfyriwr Aberystwyth a raddiodd mewn Mathemateg a Ffiseg, ac a fu'n rhan o'r ysgol haf gyntaf honno, "rydym yn dal i gofio ein hamser yn Aberystwyth, ac yn siarad amdano'n gynnes".

Mae myfyrwyr yn haeddu cael profiad o ansawdd, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn ymroddedig i sicrhau eu bod yn cael hynny.

Graham Lewis (gjl@aber.ac.uk)

Jo Maddern (oam@aber.ac.uk

GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG

# Gwaith adeiladu yn dechrau ar **adnoddau newydd IBERS**

Mae'r gwaith o adeiladu adnoddau dysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf ar gyfer Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).



*Llun artist o'r adeilad newydd ar Benglais*

Ar gampws Penglais mae'r seiliau yn cael eu gosod ar gyfer adeilad dysgu ac ymchwil dau lawr ac mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2011.

Wedi ei gysylltu ag adeiladau Edward Llwyd a Cledwyn ar y llawr cyntaf, mae disgwyl i'r adeilad gyrraedd safon *BREEAM Excellent* (Dull Asesu Amgylcheddol BRE) a bydd yn cael ei wresogi drwy system ddŵr tanddaearol a fydd yn tynnu gwres o dan gae Pantycelyn.

Mae'r coed deri aeddfed sydd ar y safle yn aros.

Yng Ngogerddan mae disgwyl i'r gwaith o adeiladu canolfan Ffenomeg, a fydd yn cynnwys y tŷ gwydr cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Gyfunol, i ddechrau ym mis Tachwedd.

Pan fydd wedi ei gwblhau, bydd yr adnodd newydd yn gam sylweddol ymlaen i IBERS gan y bydd gwyddonwyr yn gallu casglu data o nifer fawr o blanhigion mewn misoedd yn hytrach na blynyddoedd.

Yn ogystal, bydd yn ganolbwynt i Sefydliad Rhyngwladol newydd mewn Bridio Planhigion a fydd yn cynnwys labordy a llety ar gyfer academyddion sydd yn ymweld, a chanolfan fenter ar gyfer y diwydiannau amaethyddol, bwyd, deunydd bioadnewyddol a thirol.

Mae disgwyl hefyd i'r adeilad hwn hefyd, sydd yn ymestyn dros 2000 metr sgwâr, gyrraedd safon *BREEAM Excellent*, a bydd yn cael ei wresogi gan foiler biomas.

Gyda'i gilydd mae'r ddau gynllun yn cynrychioli buddsoddiad o £25m ac mae'r cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Ymchwil y Gwyddorau Biotechnolegol a Biolegol (BBSRC).

Mae manylion pellach am y ddau brosiect, gan gynnwys web cam o'r ddwy safle ar gael ar y wefan www.ibers-projects.co.uk.

CYMORTH MYFYRWYR

## Canolfan iechyd myfyrwyr a meithrinfa

Bydd y gwaith o adeiladu canolfan iechyd myfyrwyr a meithrinfa newydd y Brifysgol yn dechrau yn yr hydref. Bydd y ganolfan newydd ar riw Penglais, gyferbyn â Phantycelyn.

Bydd y safle, sydd yn cael ei chlirio ar hyn o bryd, yn gartref i feddygfa, fferyllfa a gwasanaethau sydd yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth Iechyd GIC Hywel Dda.

Caiff y gwaith datblygu ei wneud gan gwmni o Landrindod, Gaufron Health Care Limited.

Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau yn hwyr yn 2011 bydd meithrinfa'r Brifysgol yn Glenview yn symud i'r ganolfan newydd.

**Trefniadau ffyrdd newydd ar Benglais.** Mi fydd ffordd ar gau a newidiadau i'r trefniadau traffig yn ystod cyfnod yr adeiladu ar gampws Penglais. Gweler www.aber.ac.uk/en/estates/latest-news/newsarticle/title-89916-en.html am fwy o fanylion.

POBL ABER

# Undeb y Myfyrwyr

**John Antoniazzi, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yn cyflwyno swyddogion sabothol y flwyddyn hon.**



*Chwith i'r Dde Naomi Allen (Swyddog Cymorth i Fyfyrwyr), Bethan Foweraker (Swyddog Addysg) Jon Antoniazzi (Llywydd), Alun Minifey (Swyddog Gweithgareddau), Rhiannon Wade (Materion Cymreig a Swyddog UMCA).*

Yn unol â'r arfer mae myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi ethol criw deniadol o swyddogion i'w cynrychioli yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod (mae proffil am bob swyddog ar wefan Undeb y Myfyrwyr). Ein gobaith yw y bydd y trefniant swyddogion llawn a rhan amser sydd yn ei le yn dilyn yr ailstrwythuro yn ymateb yn well i anghenion ein myfyrwyr a'r Brifysgol.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i ni yn yr Undeb a bydd y rhan fwyaf ohonoch yn dod i nabod y tîm newydd yn rhinwedd eu gwahanol swyddi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r rhagolygon ar gyfer Addysg Uwch dros y blynyddoedd nesaf yn ddigalon ac mae'r Undeb yn gweithio ac yn ymgyrchu mwy gyda sefydliadau allanol megis yr NUS, cadwch lygad ar yr hyn y byddwn ni yn ei wneud ar y 10fed o Dachwedd yn brotest genedlaethol yn Llundain...Er hyn, daw cyfleoedd newydd i dyfu yn sgil heriau newydd ac mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth wedi newid y ffordd y mae'n gweithio fel sefydliad yn sylweddol; cefnogi ein myfyrwyr ar eu cyrsiau, darparu gwasanaethau cymorth a gweithgareddau craidd, a darparu gofod cymdeithasol o safon ar gyfer myfyrwyr drwy'r dydd a'r nos.

Mae amcanion craidd yr Undeb wedi eu hailgyfeirio er mwyn darparu gwell cynrychiolaeth academaidd a sicrhau ein bod yn ymgyrchu yn effeithiol ac yn berthnasol ar ran ein haelodau a sicrhau eu bod yn cael gwell dêl o safbwynt eu profiad academaidd yn Aberystwyth.

Mae un o'r newidiadau amlycaf i'r ffordd yr ydym yn gweithio yn ymwneud a Chynrychiolaeth Cwrs. Yn ddiweddar apwyntiwyd Cydlynydd Cynrychiolaeth a Phrofiad Myfyrwyr gan yr Undeb. Prif gyfrifoldeb y rôl hon fydd hyfforddiant a datblygiad cynrychiolwyr cwrs a sefydlu patrwm fydd yn gweithio i'r Brifysgol, ac yn clymu at ei gilydd yr holl wybodaeth o bwyllgorau ymgynghorol staff/myfyrwyr a gosod adborth a llais myfyrwyr wrth galon y Brifysgol.

Am fanylion pellach gweler: www.aberguild.co.uk .

# Penodiadau

## Y Gyfraith a Throseddeg

**Penodwyd yr Athro Noel Cox** yn Bennaeth newydd Adran y Gyfraith a Throseddeg. Mae'r Athro Cox yn ymuno â'r Brifysgol o Brifysgol Technoleg Auckland lle'r oedd yn bennaeth Adran y Gyfraith. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys cyfraith gyfansoddiadol, cyfraith Eglwys-Gwladwriaeth a chyfraith seiber-ofod.



## IBERS

**Mae'r Athro Gareth Edwards-Jones** wedi ei benodi i Gadair Waitrose mewn Amaethyddiaeth Gynaliadwy yn IBERS. Mae'r penodiad yn rhan o drefniant arloesol gyda Phrifysgol Bangor lle bydd yr Athro Edwards-Jones yn cyfuno ei waith yng Nghadair Waitrose gyda'i swydd fel Athro Astudiaethau Amaethyddiaeth a Defnydd Tir ym Mhrifysgol Bangor.



## Cyfrifiadureg

**Yr Athro Qiang Shen** yw pennaeth newydd yr Adran Gyfrifiadureg. Mae'r Athro Shen, sydd yn olynu'r Athro Chris Price, yn ymchwilio i systemau cyfrifiadurol sydd yn dynwared crebwyll dynol. Cyn ei benodi roedd yr Athro Shen yn Gyfarwyddwr Ymchwil yr Adran. Ymunodd ag Aberystwyth o Brifysgol Caeredin yn 2004.



## Sefydliad Mathemateg a Ffiseg (IMAPS)

**Yr Athro Manuel Grande** yw Cyfarwyddwr newydd IMAPS. Ymunodd yr Athro Grande â'r Brifysgol yn 2006 fel Pennaeth Ffiseg y System Solar ac mae wedi gweithio ar nifer o deithiau gofod uchel eu proffil gan gynnwys Chandrayaan-1, Venus Express a Cassini. Mae'n olynu'r Athro Neville Greaves sydd yn ymddeol wedi mwy na degawd yn y swydd.



# Ar lwyfan y *Fringe*


*Sarah Gates a Liz Hyde*

Bu Liz Hyde o'r Sefydliad Mathemateg a Ffiseg a Sarah Gates o CCS yn perfformio gyda Louche Theatre yng nghwyl Fringe Caeredin eleni.

Cafodd y cynhyrchiad o The Remnants of Once Fine Girls gan Stephen Todd ac a oedd wedi ei gynhyrchu gan Harry Durnall, ei berfformio yn Greenside, eglwys o fewn ychydig funudau i Princes Street.

Ymysg y criw a deithiodd i fyny i Gaeredin oedd graddedigion drama o Brifysgol Aberystwyth ac aelodau o'r gymuned leol. Noddwyd y cynhyrchiad gan gwmnïau lleol a chafodd ei enwebu am dair gwobr. Roedd cast a chriw Louche Theate wrth eu boddau wedi iddynt dderbyn adolygiad tair seren gan *The Scotsman*.

"Roeddwn yn edrych ymlaen at weld y ddinas gymaint ag yr oeddwn am berfformio gan nad oeddwn wedi bod yno o'r blaen", dywedodd Liz. Roedd y ddau brofiad yn wych ac rwy'n eiddgar iawn i fynd eto!"

Dywedodd ei chyd-gynfyfyrwaig o Aber, Sara, "Mwynheais i bob eiliad, yr ymarferion, y perfformiad ac awyrgylch yr ŵyl, rwy'n meddwl am flwyddyn nesa yn barod!"

Roedd Sandy Spence o'r Adran Gyfrifiadureg yn rhan o'r paratoadau technegol a ffotograffiaeth ar gyfer y sioe. Mae'n gyfrannwr cyson i gynyrchiadau Louche. www.louchetheatre.com

# Gwŷr o ddur

Yn ddiweddar cwblhaodd dau aelod staff, Jeff Saycell a Dave Smith, ac aelod o'r Ganolfan Chwaraeon, Euros Jones, y gystadleuaeth Outlaw Triathlon.

Roedd y ras yn cael ei rhedeg dros bellter 'Ironman', sef nofio 2.5 milltir, beicio 112 milltir a rhedeg 26.2 milltir ac yn cael ei chynnal yn y Ganolfan Chwaraeon Dŵr Cenedlaethol yn Holme Pierrepoint.

Mae'r tri wedi defnyddio adnoddau ymarfer gwych y Ganolfan Chwaraeon sydd yn cynnwys hyfforddiant nofio gyda'r aelod staff, Lauren March, trac rhedeg dwy lôn 400m newydd a sesiynau sbinio o dan oruchwyliaeth hyfforddwyr y Brifysgol.

Amser Jeff oedd 11 awr, 6 munud a 53 eiliad, amser Dave oedd 11 awr, 26 munud a 9 eiliad ac amser Euros oedd 12 awr, 17 munud a 21 eiliad.


*Dave Smith, Jeff Saycell a Euros Jones*

# Penodi Cymrodyr

Gwahoddir enwebiadau am Gymrodoriaethau Prifysgol Aberystwyth. Mae gwahoddiad i aelodau staff gyflwyno enwebiadau i'r Is-Ganghellor erbyn dydd **Llun 25 Hydref 2010.** Gyda phob enwebiad dylid cynnwys bywgraffiad byr am y sawl a enwebir.

Dymuniad y Brifysgol yw anrhydeddu rhai sydd neu a fu â chysylltiad ag Aberystwyth neu a wnaeth gyfraniad arbennig i fywyd Cymru. Mae o werth arbennig os gall gymrodyr sefydlu perthynas a fydd yn parhau gydag un neu fwy o adrannau'r Brifysgol.

Bydd y pwyllgor yn rhoi ystyriaeth gwbl gyfrinachol i bob enwebiad. Disgwylir y bydd y Senedd a'r Cyngor yn cadarnhau penodiadau yn ystod Rhagfyr 2010.

## Ymchwil



**Mae Gary Reed** wedi ei benodi yn bennaeth Swyddfa Ymchwil y Brifysgol. Mae rôl Gary yn cynnwys cydlynu Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a'r paratoadau ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Ymunodd gyda'r Brifysgol o Brifysgol Loughborough lle'r oedd yn Gyfarwyddwr Ymchwil ar y Ganolfan Ymchwil Rheoli Modurol. Am y dair blynedd ddiwethaf bu'n bennaeth Partneriaeth Ymchwil a Menter Aberystwyth a Bangor.

## Recriwtio Rhyngwladol a Chydweithio



**Iona Hopkins** yw'r Swyddog Cyfnewid, Astudio Tramor a Phartneriaethau yn y Ganolfan Recriwtio Ryngwladol a Chydweithio. Bydd Iona yn canolbwyntio ar Erasmus a Rhaglen Gyfnewid Gogledd America a rhaglen Astudio Dramor Recriwtio Rhyngwladol a Chydweithio ar gyfer myfyrwyr o dramor sydd yn talu ffioedd. Mae Iona, a raddiodd yn ddiweddar o Brifysgol Bangor gyda MA mewn Astudiaethau Ewropeaidd, yn gweithio o'r Swyddfa Astudio Dramor (TO3) ar lawr uchaf y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr ac mae modd cysylltu gyda hi ar 01970 622364 neu studyabroad@aber.ac.uk


## Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd



Drwy GradStart (a gyllidir gan HEFCW), mae Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd PA wedi penodi Ymgynghorydd Gyrfaoedd i Raddedigion, Cathy Piquemal, i ddatblygu a darparu GradStart Aber i raddedigion sydd allan o waith neu heb waith sydd yn cyfateb i'w sgiliau. Mae rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau gyrfaoedd a chyflogadwyedd, cyflwyniadau wedi eu teilwra a gweithdai i gynorthwyo gyda chwilio am waith, yn ogystal â darparu cyrsiau *Institute of Leadership and Management* ar arweinyddiaeth a rheolaeth a siliau busnes hanfodol yn cael eu cynnig, wrth ddatblygu ar yr un pryd, e-lwyfan dyfeisgar i ddarparu cymorth ychwanegol a thrafodaeth.

Am fanylion pellach, ac os ydych yn gwybod am raddedigion allai elwa o'r fenter hon, cysylltwch â Cathy ar crp@aber.ac.uk.

## Y GANOLFAN GERDD




Bu'n flwyddyn gynhyrchiol i Gyfarwyddwr Cerdd y Brifysgol, Dr David Russell Hulme.

Cafodd ei fersiwn arloesol o *Ruddigore* gan Gilbert and Sullivan ei llwyfannu gan Opera North ym mis Ionawr, mewn cynhyrchiad gan Jo Davies a ddenodd gryn feirniadaeth gadarnhaol. Wrth ddychwelyd at y gerddoriaeth wreiddiol mae'r fersiwn newydd (a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Rhydychen) yn mynd ati i ail-greu'r gerddoriaeth a geiriau fel yr oeddent yn cael eu chwarae yng nghyfnod y cyfansoddwr a'r awdur. Cafod y gwahaniaeth rhwng y gwaith hwn a fersiynau diweddar mwy cyfarwydd gryn argraff!

Cafodd David gryn lwyddiant gyda gwaith arall y bu yn ei wneud gydag opereta glasurol Brydeinig. Bu'n arwain adfywiad proffesiynol prin o *Princess Ida* mewn cynhyrchiad gan Jeff Clarke ar gyfer Gŵyl Ryngwladol Gilbert a Sullivan yn Nhŷ Opera Buxton. Hefyd cyrhaeddodd recordiad o *Tom Jones* gan Edward German a ryddhawyd gan y label Naxos, rif 3 yn y siart clasurol.

**Ymarferion 2010**

Os yw eich diddordeb mewn chwarae yng Ngherddorfa symphony neu fand chwith y Brifysgol, neu ganu gydag Undeb Gorawl, Showtime Singers neu'r Cantorion Madrigal Elisabethaidd, mae gan y Ganolfa Gerdd rhywbeth at ddant pawb. Mae rhaglen ymarferion hydref 2010 yn dechrau yn ystod wythnos gyntaf Hydref. Manylion llawn ar gael ar lien yn www.aber.ac.uk/music neu drwy alw 01970 622685 / e-bost music@aber.ac.uk.

## DIGWYDDIADUR

### Arddangosfeydd

| YR YSGOL GELF | | |
|---|---|---|
| **23 Hyd 2010 - 5 Ion 2011** | **'Japanese Pottery: The Rising Generation from Traditional Japanese Kilns'** (Arddangosfa Deithiol Sefydliad Siapan) | Ceramics Gallery, Aberystwyth Arts Centre |
| **20 Med - 8 Hyd** Llun - Gwener 9am–5pm | **ARDDANGOSFA UWCHRADDEDIGION** | Galleries 1, 2 & 3 |
| **18 Hyd - 19 Tach** | **IMPERFECT TRANSCRIPTIONS** - The 24 Études of Frédéric Chopin, for Monique<br>Ffotograffau gan David Gepp | Gallery 1 & 2 |
| **18 Hyd - 19 Tach** | **IVAN GREEN:** Ffotograffau | Gallery 3 |
| **29 Tach 2010 - 28 Ion 2011** | **'Edward Gordon Craig: Stage Designs, Drawings, Engravings and Photographs'** Arddangosfa deithiol Canolfan y Celfyddydau Dyffryn Mynwy | |
| **29 Tach 2010 - Ion 2011** | **Arddangosfa PhD** Michael Roberts | |

### Perfformiadau a Digwyddiadau

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | |
|---|---|
| **8 – 9 Hydref** | **Pocket Dream** from Propeller Theatre |
| **14 – 16 Hydref** | **Pinter** – Bold Productions |
| **15 – 16 Hydref** | **Interiors** (Vanishing Point And Napoli Teatro Festival Italia) |
| **20 Hydref** | **The Mill** - Ockham's Razor |
| **20 Hydref** | **Burton**<br>Sioe chwaethus un dyn 75 munud sydd yn darlunio hanes bywyd Richard Burton – o'i ddyddiau cynnar yng Nghymru, ei fagwraeth mewn tlodi eithriadol, ac yna'r cyfoeth aruthrol a ddaeth yn sgil ei alluoedd eithriadol. Yr awdur yw'r Athro Gwynn Edwards, cyn aelod staff o'r Brifysgol ac mae'n cael ei berfformio gan Rhodri Miles. |
| **27 – 28 Hydref** | **The Cherry Orchard** |
| **6 Tachwedd** | ***7734 Jasmin Vardimon Dance Company*** |
| **10 – 14 Tachwedd** | **Abertoir:** Gwyl Ffilmiau Arswyd Cymru - llwyth o waed! |
| **16 – 20 Tachwedd** | **Romeo and Juliet** Pilot Theatre |
| **23 Tachwedd** | **Lysistrata - Actors of Dionysus** |

### Cyrsiau

#### ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

**Cyrsiau Rhan Amser Dysgu Gydol Oes**

Cyrsiau yn dechrau ar ddydd **Llun 4 Hydref.** Nid yw'n rhy hwyr i gofrestru!

**Celf a Dylunio:** Cyrsiau i ddechreuwyr; Arlunio; Paentio; Tecstilau Creadigol; Cerflunio; Hanes Celf; Photoshop; Dylunio Gwe.

**Y Dyniaethau:** Ysgrifennu Creadigol; Achyddiaeth; Archaeoleg; Hanes; Llenyddiaeth.

**Dysgu iaith newydd:** Dechreuwyr i safon uwch Arabeg, Llydaweg, Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Eidaleg, Siapaneg, Rwsieg a Sbaeneg.

**Gwyddoniaeth:** Bywyd Anifeiliaid; Bywyd Adar; Ecoleg; Bwyd a Maetheg, Bywyd Planhigion a Môr; Garddio Organig/Permaculture.

**Y Gwyddorau Cymdeithasol:** Datblygiad Plant & Seicoleg

**Cyrsiau newydd ar gyfer hydref 2010**

- Cyflwyniad i Archaeoleg
- Lladin elfennol ar gyfer haneswyr teulu a lleol.
- Dylunio gwe gan ddefnyddio Dreamweaver (Prynhawn Mercher a gyda'r hwyr o fis Chwefror)
- Cyflwyniad i Flash (dechrau 6 Hydref 11 y bore)
- 'Words that Run with Wolves' - Arlunio ac ysgrifennu creadigol ar gyfer plant.

**Sesiynau blasu am ddim:**

- Groeg is a chanol, Llandinam B22 Dydd Mawrth 5 Hydref 6pm
- Groeg i ddechreuwyr, Hugh Owen D59 Dydd Mercher 6 Hydref 6pm
- Llydaweg i ddechreuwyr, Hen Goleg Dydd Sadwrn 16 Hydref 10 y bore

* Llyfryn newydd allan nawr. Cysylltwch â ni ar 621580 neu learning@aber.ac.uk neu codwch gopi o Dderbynfa Penglais, yr Hen Goleg neu 10 Maes Lowri.

* lawr lwythwch ffurflen gofrestru: www.aber.ac.uk/sell/geninfo/enrol/index.html